Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y chweched adroddiad blynyddol gan Weinidogion Cymru ar weithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014

I'w ddwyn gerbron Senedd Cymru a'i gyflwyno i'r Senedd, yn unol ag Adran 23 o Ddeddf Cymru 2014

Rhagfyr 2020

OGL © Hawlfraint y Goron 2020
WG41678 ISBN digidol 978-1-80082-469-0

**Cynnwys**


| | tudalen |
|---|---|
| **Rhagair** | **2** |
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Trethi Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru** | **4** |
| **Cyfraddau Treth Incwm Cymru** | **9** |
| **Y gallu i greu treth newydd i Gymru** | **12** |
| **Benthyca** | **15** |
| **Rhagolygon ac addasiad i'r grant bloc** | **17** |
| **Atodiad 1: Rheoliadau** | **19** |
| **Atodiad 2: Ymgysylltu** | **20** |
| **Atodiad 3: Rhagor o wybodaeth** | **23** |
| **Atodiad 4: Talfyriadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn** | **26** |

**Rhagair**



Dyma'r adroddiad olaf ond un am weithredu'r pwerau trethu a benthyca a ddatganolwyd gan Ddeddf Cymru 2014. Ar ôl i Gyfraddau Treth Incwm Cymru gael eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2019, roedd y mesurau ariannol a ddarparwyd gan Ddeddf Cymru 2014 i gyd yn weithredol ac, ers hynny, mae'r trefniadau 'busnes fel arfer' yn cael eu sefydlu.

Hoffwn ddiolch i'r rhai sydd wedi helpu Llywodraeth Cymru yn y broses hon – y Senedd am graffu ar y darpariaethau ariannol, a'r holl bobl a sefydliadau a roddodd o'u hamser i rannu eu cyngor a'u profiad, gan gynnwys aelodau o'r Grŵp Cynghorol Trethi gynt, a'r Grŵp Ymgysylltu ar Drethi newydd.

Er bod y mesurau a ddatganolwyd i Gymru gan y Ddeddf yn gweithredu'n effeithiol, mae gan Lywodraeth Cymru bryderon o hyd am y drefn rynglywodraethol ar gyfer sefydlu trethi newydd. Mae'r broses o ddatganoli cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer Treth ar Dir Gwag, y bwriadwyd iddi brofi'r trefniadau newydd, wedi sefyll yn ei hunfan i bob pwrpas. Nid yw'r broses yn gweithio – mae angen ei diwygio.

Rwy'n gobeithio gallu adrodd ar rywfaint o gynnydd ar Dreth ar Dir Gwag yn yr adroddiad olaf ar weithredu Deddf Cymru 2014, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2021.



Rebecca Evans AS
Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Rhagfyr 2020

**Cyflwyniad**

O dan adran 23 o Ddeddf Cymru 2014[1], mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wneir ar weithredu'r darpariaethau yn Rhan 2, a hynny tan y bydd blwyddyn wedi mynd heibio ers rhoi'r darpariaethau terfynol ar waith. Dyma'r chweched adroddiad blynyddol gan Weinidogion Cymru.

Mae adran 23(7) o'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i'r adroddiadau blynyddol gynnwys yr wybodaeth ganlynol am y darpariaethau ariannol:

*"(a) A statement of the steps that have been taken, whether by the maker of the report or by others, since the making of the previous report (or, in the case of the first report, since the passing of this Act) towards implementation of the provisions of this Part,*

*(b) A statement of the steps that the maker of the report proposes should be taken, whether by the maker of the report or by others, towards the implementation of the provisions of this Part,*

*(c) An assessment of the operation of the provisions of this Part that have been implemented,*

*(d) An assessment of the operation of any other powers to devolve taxes to the Assembly or to change the powers of the Welsh Ministers to borrow money, and of any other changes affecting the provisions inserted or amended by this Part,*

*(e) A statement of the effect of this Part on the amount of any payments made by the Secretary of State under section 118 of GOWA 2006 (payments into the Welsh Consolidated Fund), and*

*(f) Any other matters concerning the sources of revenue for the Welsh Government that the maker of the report considers should be brought to the attention of Parliament or the Assembly."*

Nid yw'n ofynnol i'r adroddiadau fynd i'r afael â'r adrannau canlynol o Ddeddf Cymru 2014 – adran 10 (Trethdalwyr Cymru at ddibenion nawdd cymdeithasol neu gynnal plant); adran 11 (Diwygiadau i'r diffiniad o drethdalwyr o'r Alban) ac adran 22 (Gweithdrefnau cyllidebol).

Disgwylir i'r adroddiadau gael eu cyhoeddi bob blwyddyn, a hynny cyn pen blwyddyn i'r diwrnod y cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol – 17 Rhagfyr 2014. Bydd disgwyl i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi flwyddyn ar ôl y diwrnod y bydd yr olaf o'r darpariaethau yn Rhan 2 yn cael ei gweithredu, neu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl wedi hynny.

[1] Deddf Cymru 2014:
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents/enacted

**Trethi Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru**

*Treth Trafodiadau Tir*

Mae adran 15 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn galluogi Senedd Cymru[2] i ddeddfu ar gyfer treth ar drafodiadau sy'n ymwneud â buddiannau mewn tir yng Nghymru. Mae adran 16 ac atodlen 2 yn diwygio deddfwriaeth y DU i ddiddymu Treth Dir y Dreth Stamp yn y DU mewn perthynas â Chymru. Mae adran 17 yn ymwneud â darparu gwybodaeth am drafodiadau tir yng Nghymru i CThEM.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, law yn llaw â Bil Cymru (Mawrth 2014), hefyd yn datgan y byddai Treth Dir y Dreth Stamp yn 'dirwyn i ben' o fis Ebrill 2018[3].

*Treth Gwarediadau Tirlenwi*

Mae adran 18 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn galluogi'r Senedd i ddeddfu ar gyfer treth ar warediadau tirlenwi yng Nghymru. Mae adran 19 yn diwygio Rhan 3 o Ddeddf Cyllid 1996 i ddiddymu Treth Dirlenwi y Deyrnas Unedig mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, law yn llaw â Bil Cymru (Mawrth 2014), hefyd yn datgan y byddai'r Dreth Dirlenwi yn 'dirwyn i ben' o fis Ebrill 2018.

Defnyddiodd y Trysorlys y pwerau yn adrannau 16 a 19 o Ddeddf Cymru 2014 i orchymyn[4] bod Treth Dir y Dreth Stamp a Threth Gwarediadau Tirlenwi y DU yn cael eu diddymu yng Nghymru ar 1 Ebrill 2018.

**Trethi Cymru**

1. Ar 1 Ebrill 2018, daeth Deddfau Trethi Cymru[5] i rym a dechreuodd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) gasglu'r ddwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn i Gymru, sef y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

<u>Treth Trafodiadau Tir</u>

2. Cyhoeddwyd y cyfraddau a'r bandiau ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o broses Cyllideb 2018-19. Cytunwyd ar y rheoliadau i ddwyn cyfraddau a bandiau'r dreth trafodiadau tir i rym gan y Senedd ar 30 Ionawr 2018[6].

---

[2] Mae cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (c. 32).
[3] *Bil Cymru: atebolrwydd a grymuso ariannol,* Cm 8838, para 16: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294471/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf
[4] Deddf Cymru 2014, Adrannau 16 a 19 (Diddymu Treth Dir Treth Stamp y DU a Threth Dirlenwi y DU) (Dyddiad Penodedig) Gorchymyn 2018 (O.S. 2018/214).
[5] Mae Deddfau Trethi Cymru yn cynnwys: Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016; Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017; a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.
[6] Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/128).

3. Ar ddechrau 2020-21, roedd cyfraddau'r Dreth Trafodiadau Tir yr un peth â'r flwyddyn flaenorol ond, ar 27 Gorffennaf 2020, mewn ymateb i'r heriau economaidd o ganlyniad i bandemig COVID-19, cafodd y cyfraddau a'r bandiau ar gyfer y prif gyfraddau eu diwygio dros dro ar gyfer y cyfnod o 27 Gorffennaf tan 31 Mawrth 2021. Gwnaed y newidiadau drwy reoliadau cadarnhaol ar 22 Gorffennaf, a daethant i rym ar 27 Gorffennaf[7]. Cafodd y rheoliadau, ac felly'r newidiadau i'r cyfraddau, eu cymeradwyo gan y Senedd ar 29 Medi.

**Tabl un: Prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir (1 Ebrill 2020 - 26 Gorffennaf 2020, ac o 1 Ebrill 2021)**

| Trothwy prisiau | Cyfradd TTT |
|---|---:|
| £0 i £180,000 | 0% |
| Dros £180,000 i £250,000 | 3.5% |
| Dros £250,000 i £400,000 | 5% |
| Dros £400,000 i £750,000 | 7.5% |
| Dros £750,000 i £1,500,000 | 10% |
| Mwy nag £1.5m | 12% |

**Tabl dau: Prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir (27 Gorffennaf 2020 - 31 Mawrth 2021)**

| Trothwy prisiau | Cyfradd TTT |
|---|---:|
| £0 i £250,000 | 0% |
| Dros £250,000 i £400,000 | 5% |
| Dros £400,000 i £750,000 | 7.5% |
| Dros £750,000 i £1,500,000 | 10% |
| Mwy nag £1.5m | 12% |

**Tabl tri: Cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir**

| Trothwy prisiau | Cyfradd TTT |
|---|---:|
| £0 i £180,000 | 3% |
| Dros £180,000 i £250,000 | 6.5% |
| Dros £250,000 i £400,000 | 8% |
| Dros £400,000 i £750,000 | 10.5% |
| Dros £750,000 i £1,500,000 | 13% |
| Mwy nag £1.5m | 15% |

**Tabl pedwar: Prif gyfraddau amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir**

| Trothwy prisiau | Cyfradd TTT |
|---|---:|
| £0 i £150,000 | 0% |
| Dros £150,000 i £250,000 | 1% |
| Dros £250,000 i £1m | 5% |
| Mwy nag £1m | 6% |

[7] *Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020:*
https://senedd.cymru/laid%20documents/sub-ld13367-em/sub-ld13367-em%20-w.pdf

**Tabl pump: Cyfraddau rhent prydles amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir**

| Trothwy prisiau | Cyfradd TTT |
|---|---|
| £0 i £150,000 | 0% |
| Dros £150,000 i £2m | 1% |
| Mwy nag £2m | 2% |

4. Caiff y cyfraddau a'r bandiau ar gyfer 2021-22 eu cyhoeddi yng Nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

Treth Gwarediadau Tirlenwi

5. Cyhoeddwyd y cyfraddau cychwynnol ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi gan Lywodraeth Cymru fel rhan o broses Cyllideb 2018-19. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynyddu cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn unol â chwyddiant yn 2019-20, er mwyn bod yn gyson â'r modd y mae Llywodraeth y DU yn ymdrin â chyfraddau Treth Tirlenwi. Cytunodd y Senedd ar y rheoliadau a fyddai'n pennu cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer 2019-20 ar 8 Ionawr 2019.

6. Yn 2020-21, ymrwymodd Llywodraeth Cymru unwaith eto i gynyddu cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn unol â chwyddiant. Cytunodd Senedd Cymru ar y rheoliadau a fyddai'n pennu cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer 2020-21 ar 28 Ionawr 2020.

**Tabl chwech: Cyfraddau TGT 2020-21, £ fesul tunnell**

| Trothwy prisiau | Cyfradd TGT |
|---|---|
| Cyfradd safonol | £94.15 |
| Cyfradd is | £3.00 |
| Cyfradd gwarediadau anawdurdodedig | £141.20 |

7. Caiff y cyfraddau arfaethedig ar gyfer 2021-22 eu cyhoeddi fel rhan o'r Gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22.

Ystadegau chwarterol ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi

8. Mae ACC yn cyhoeddi gwybodaeth am ffurflenni treth a'r refeniw a godir drwy drethi Cymru yn rheolaidd[8]. Alldro blynyddol blwyddyn ariannol 2019-20 ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir oedd £260m, a £37m ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer 2019-20, fel y cyhoeddwyd yng nghyfrifon cyhoeddus ACC[9].

[8] Y data diweddaraf ar y dreth trafodiadau tir:
https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-trafodiadau-tir
Data ar y dreth gwarediadau tirlenwi:
https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi
[9] *Cyfrifon Blynyddol ACC 2019-20*:
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/awdurdod-cyllid-cymru-cyfrifon-blynyddol-2019-2020.pdf

Bwrdd y Rhaglen Datganoli Trethi

9. Gan fod y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn eu trydedd flwyddyn, a Chyfraddau Treth Incwm Cymru yn eu hail flwyddyn, cytunodd Llywodraeth Cymru a CThEM nad oedd angen Bwrdd y Rhaglen Datganoli Trethi, a oedd yn gyfrifol am ddatrys heriau ar lefel prosiect a goruchwylio'r broses o bontio i drefniadau busnes fel arfer yng nghydberthynas Llywodraeth Cymru â CThEM, mwyach a chafodd ei gau. Mae'r swyddogaethau a oedd yn weddill gan y Bwrdd mewn perthynas â Chyfraddau Treth Incwm Cymru wedi cael eu neilltuo i Fwrdd Cyfraddau Treth Incwm Cymru (gweler paragraff 25).

10. Mae cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd yn parhau rhwng Trysorlys Cymru a Thîm Datganoli CThEM i drafod materion nad ydynt yn ymwneud â threth incwm. Mae'r rhain yn helpu i gynnal cysylltiadau gweithredol ac yn lle i gael trafodaethau ehangach am faterion o ddiddordeb cyffredin, fel effaith COVID-19.

11. Mae gan Lywodraeth Cymru rywfaint o gymharedd â CThEM yn fformiwla Barnett bellach, i adlewyrchu'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn.

Rheoliadau

12. Rhestrir y rheoliadau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol yn Atodiad 1.

Galluogi newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru

13. Rhwng 16 Gorffennaf a 15 Hydref, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i nodi'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau i 'Ddeddfau Trethi Cymru' ar fyr rybudd[10], o dan yr amgylchiadau canlynol:
    - Er mwyn atal achosion o osgoi neu efadu'r trethi a ddatganolwyd i Gymru.
    - Er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol.
    - Mewn sefyllfaoedd o angen eithriadol (megis mewn ymateb i benderfyniad gan dribiwnlys neu'r llysoedd uwch).
    - O dan amgylchiadau penodol lle mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod gwneud hynny er budd y cyhoedd, yn benodol, mewn ymateb i newidiadau i bolisïau trethi gan Lywodraeth y DU.

14. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu rhithwir gyda rhanddeiliaid allweddol i gyflwyno'r cynigion ac ateb cwestiynau. Caiff canlyniad yr ymgynghoriad ei gyhoeddi cyn diwedd mis Rhagfyr 2020.

## Awdurdod Cyllid Cymru

15. Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at ACC ar 2 Ebrill 2019 yn nodi'r ffordd yr oedd yn disgwyl i ACC gael ei weithredu yn ystod y cyfnod rhwng 2019-20 a 2021-22. Ailgadarnhaodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd y blaenoriaethau mewn llythyr i ACC ar 3 Gorffennaf 2020. Mae Cynllun Corfforaethol ACC ar gyfer 2019-22, a gyhoeddwyd ar 14 Mai 2019[11], yn adlewyrchu'r disgwyliadau cydategol hyn ac yn nodi

[10] Galluogi newidiadau i ddeddfwriaeth trethi Cymru:
https://llyw.cymru/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru
[11] *Cynllun Corfforaethol ACC 2019-22*:

ym mha ffordd y caiff pob un ei fodloni. Mae'r llythyr cylch gwaith yn amlinellu'r blaenoriaethau canlynol:

- Datblygiad parhaus ACC – adeiladu ar gyflawniadau ACC ac edrych ymlaen at y tymor hwy;
- Cyflawni canlyniadau – datblygu cyfres o fesurau perfformiad gweithredol er mwyn nodi pa mor effeithiol y mae'r system drethi yn gweithio yng Nghymru; a
- Gwarediadau Anawdurdodedig – y dylai ACC dargedu adnoddau mewn perthynas â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar achosion sy'n mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol ac sy'n rhoi busnesau tirlenwi cyfreithlon o dan anfantais.

16. Mae ACC wedi datblygu'r hyn y mae'n ei alw'n *'Ein Dull o Weithredu'* – ffordd Gymreig o drethu – ac mae ei gynllun corfforaethol yn cynnwys astudiaethau achos ar y ffordd y mae hyn yn gweithio'n ymarferol.

17. Mae'r cynllun corfforaethol yn cynnwys chwe amcan strategol sy'n adlewyrchu disgwyliadau'r Gweinidog ac sy'n canolbwyntio ar helpu trethdalwyr i dalu'r swm cywir o dreth ar yr adeg gywir, yn ogystal ag amcanion i gyfrannu at y gwaith o ddylunio gwasanaethau cyllid Cymru, a manteisio i'r eithaf ar ddata trethdalwyr Cymru.

18. Gan iddo gael ei sefydlu fel sefydliad cwmwl, roedd modd i wasanaethau digidol ACC barhau i weithredu pan fu llifogydd yn ei bencadlys ym mis Chwefror, a phan oedd yn ofynnol i bobl weithio o bell mewn ymateb i COVID-19, heb fawr ddim tarfu i drethdalwyr, eu cynrychiolwyr, a staff ACC.

19. Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar nifer y trafodiadau eiddo ac mae'n debygol iddo ddylanwadu ar lefelau'r gwastraff a waredwyd yn ystod hanner cyntaf 2020-21[12].

20. Mae ACC wedi sefydlu partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a dirprwyodd rai swyddogaethau cymhwysedd Treth Gwarediadau Tirlenwi penodol i CNC ym mis Ionawr 2018. Sefydlwyd tîm gweithredu ar y cyd i weithio gyda gweithredwyr safleoedd tirlenwi awdurdodedig er mwyn sicrhau eu bod yn talu'r dreth gywir, ac mae'r sefydliadau'n cydweithio'n agos i ddatblygu dull ar y cyd o godi treth ar warediadau gwastraff anawdurdodedig. Mae'r gydberthynas hon yn seiliedig ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd sy'n estyn trefniadau ar gyfer y tîm gweithredu ar y cyd tan o leiaf fis Mawrth 2023.

21. Cyhoeddodd ACC ei ail Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar 20 Hydref 2020[13], a oedd yn adrodd ar flwyddyn gyntaf ACC o gynnydd yn erbyn yr amcanion a'r mesurau yng Nghynllun Corfforaethol tair blynedd ACC.

---

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cynllun-corfforaethol-awdurdod-cyllid-cymru-2019-2022.pdf

[12] Gweler y manylion yn natganiadau ystadegol diweddaraf ACC: https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil?field_stats_series_external_organisation%5B543%5D=543

[13] *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ACC 2019-20*: https://llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2019-2020

## Cyfraddau Treth Incwm Cymru

> Mae adrannau 8 i 11 o Ddeddf Cymru 2014 yn darparu ar gyfer cyfraddau treth incwm sylfaenol, uwch ac ychwanegol yng Nghymru i'w pennu gan y Senedd drwy benderfyniad, ac yn rhoi diffiniad pellach o "drethdalwyr Cymru".
>
> Pan gafodd Deddf Cymru 2014 ei deddfu'n wreiddiol, roedd yn darparu ar gyfer cynnal refferendwm yng Nghymru ynghylch p'un a ddylai'r darpariaethau treth incwm a nodwyd yn y Ddeddf ddod i rym ai peidio. Yn dilyn hynny, cafodd y darpariaethau hyn mewn perthynas â refferendwm eu dileu gan adran 17 o Ddeddf Cymru 2017[14].
>
> Cadarnhaodd fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru, y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2016, y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn ystod 2019-20, a hynny'n amodol ar ddileu'r gofyniad am refferendwm.

22. Cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar 6 Ebrill 2019. Ar gyfer incwm nad yw'n deillio o ddifidend na chynilion, penderfynodd Llywodraeth y DU dynnu 10c oddi ar y tair cyfradd treth incwm – cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol – a delir gan drethdalwyr Cymru[15].

23. Ar 3 Mawrth 2020, cytunodd y Senedd â chynnig Llywodraeth Cymru i bennu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar gyfer 2020-21 ar 10c, er mwyn sicrhau bod y cyfraddau Treth Incwm a delir gan drethdalwyr Cymru yr un peth â'r rheini a delir gan drethdalwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon[16].

24. Mae CThEM yn parhau i fod yn gyfrifol am gasglu a rheoli Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Yn nhermau cyfreithiol a chymhwysedd, erys y dreth hon yn un o drethi'r DU, felly hefyd y trefniadau cysylltiedig ar gyfer lwfansau a rhyddhadau (gan gynnwys y lwfans personol), y trothwyon treth, a'r bandiau. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn gyfrifol am y refeniw sy'n deillio o Dreth Incwm ar gynilion ac incwm difidend gan drethdalwyr yng Nghymru.

25. Ar ôl i Brosiect Cyfraddau Treth Incwm Cymru gael ei roi ar waith yn llwyddiannus, mae Bwrdd y Rhaglen Datganoli Trethi wedi cael ei olynu gan Fwrdd Cyfraddau Treth Incwm Cymru, a gaiff ei gadeirio ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a CThEM. Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob chwarter, ac ymhlith yr aelodau mae swyddogion o CThEM, Trysorlys EM a Llywodraeth Cymru. Hefyd, cynhelir cyfarfodydd cyllid misol i graffu ar gostau Cyfraddau Treth Incwm Cymru a rheoli gwariant parhaus. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn mynd ati'n annibynnol i archwilio gwaith CThEM er mwyn sicrhau llywodraethu da a gwerth am arian.

---

[14] Cafodd Deddf Cymru 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017: http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/4/contents/enacted

[15] Diffinnir trethdalwyr Cymru yn adran 8 o Ddeddf Cymru 2014 (Cyfraddau Treth Incwm Cymru). Fodd bynnag, byddant fel arfer yn bobl sy'n preswylio yng Nghymru: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/section/8/enacted

[16] Gwnaed y cynnig i bennu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar gyfer 2020-21 ar 10c, ar gyfer y gyfradd sylfaenol, y gyfradd uwch a'r gyfradd ychwanegol, gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: https://cofnod.senedd.cymru/Plenary/6260#A56774

26. Mae gweithgor dadansoddol ar dreth incwm ddatganoledig yn goruchwylio'r gwaith o ddadansoddi ystadegau ar dreth incwm ddatganoledig, gan gynnwys cyhoeddi alldro. Ymhlith aelodau'r grŵp hwn mae swyddogion o CThEM, Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Comisiwn Cyllidol yr Alban a Llywodraeth yr Alban.

27. Mae'r gwaith o baratoi systemau CThEM ar gyfer TWE, hunanasesu ar-lein a Rhyddhad wrth y Ffynhonnell wedi'i gwblhau. Disgwylir i'r un eitem sy'n weddill, sef Crynodeb Treth Blynyddol Cymru, gael ei chwblhau erbyn diwedd 2020. Bydd y crynodeb hwn yn rhoi gwybod i drethdalwyr Cymru faint o Gyfraddau Treth Incwm Cymru y maent wedi'u talu, a bydd yn cynnwys dolen i wefan Llywodraeth Cymru lle y gellir cael gwybodaeth am y ffordd y mae'r refeniw wedi cael ei wario yng Nghymru.

28. Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar waith gyda CThEM ar gyfer rheoli Cyfraddau Treth Incwm Cymru[17]. Mae'n nodi'r gofynion, yr amserlenni a'r mesurau perfformiad ar gyfer gweithredu'r cyfraddau. Bydd yn sicrhau gwasanaeth o ansawdd cyson i drethdalwyr Cymru, ac yn galluogi CThEM a Llywodraeth Cymru i gyflawni eu priod gyfrifoldebau wrth weithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Yn ystod haf 2020, aeth swyddogion yn Llywodraeth Cymru a CThEM ati i adolygu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth, a hynny'n bennaf er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben ar gyfer cyfnod 'busnes fel arfer' y broses o weinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Gwnaeth y swyddogion hefyd achub ar y cyfle i adolygu'r trefniadau llywodraethu, costau gweinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn y dyfodol, a'r ddarpariaeth Gymraeg.

29. Fel y nodir yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth, mae'n ofynnol i CThEM gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn ar y ffordd y mae'n gweinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol cyntaf ar wefan Llywodraeth y DU[18] ar 29 Medi 2020. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am waith CThEM i weinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru, gan drafod:

    1. Gweithgarwch cydymffurfiaeth (gan gynnwys sicrwydd cyfeiriadau).
    2. Casglu refeniw a rhoi cyfrif amdano.
    3. Gwasanaeth a chymorth i gwsmeriaid.
    4. Data ar gyfer pennu cyfraddau a rhagolygon.
    5. Data ar gyfer gwaith rheoli arian Llywodraeth Cymru.
    6. Costau rhoi Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith, ac ailgodi tâl am gostau CThEM.

30. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi bod rhoi Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith dros y tair blynedd rhwng 2017 a 2020 wedi costio cyfanswm o £7.5m. Mae rhai costau terfynol sy'n gysylltiedig â chreu'r Crynodeb Treth Blynyddol a chau'r prosiect yn golygu mai'r amcangyfrif gan CThEM o gyfanswm cost cyflawni'r prosiect rhwng £8m-£9m.

31. Amcangyfrifir mai'r costau busnes fel arfer ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru fydd tua £700,000 ar gyfer 2020-21.

---

[17] Cytundeb lefel gwasanaeth CThEM ar gyfer gweithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru https://www.gov.uk/government/publications/service-level-agreement-for-operation-of-welsh-rates-of-income-tax-by-hmrc.cy

[18] *Cyfraddau Treth Incwm Cymru: Adroddiad Blynyddol CThEM 2020:* https://www.gov.uk/government/publications/welsh-rates-of-income-tax-hmrc-annual-report-2020.cy

32. Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi Cyfraddau Treth Incwm arfaethedig Cymru ar gyfer 2021-22 yn y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22.

**Y gallu i greu treth newydd i Gymru**

Mae adran 6 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn gallu creu trethi datganoledig newydd lle bydd Ei Mawrhydi yn gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Ni ellir gwneud argymhelliad i Ei Mawrhydi wneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor tan y bydd drafft o'r offeryn statudol, sy'n cynnwys y Gorchymyn, wedi cael ei osod gerbron dau Dŷ Senedd y DU a Senedd Cymru, a'i gymeradwyo ganddynt. Gallai'r rhain fod yn drethi cyfredol y DU y mae Llywodraeth y DU yn eu datganoli i Gymru, neu'n drethi sydd newydd gael eu creu gan Lywodraeth Cymru mewn meysydd lle mae cyfrifoldeb wedi cael ei ddatganoli.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU law yn llaw â Bil Cymru (Mawrth 2014) yn rhoi rhagor o fanylion am y modd y byddai cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer trethi newydd, yn y lle cyntaf, yn cael eu hasesu gan Lywodraeth y DU[19].

33. Mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i bedwar syniad newydd o ran trethi: Treth ar Dir Gwag, Treth ar Ddeunydd Plastig Untro, Treth ar Dwristiaeth, a threthiant fel ffordd o ariannu gofal cymdeithasol. Mae'r Dreth ar Dir Gwag yn cael ei defnyddio i brofi'r mecanwaith rhynglywodraethol ar gyfer cyflwyno trethi newydd, tra bod gwaith yn mynd rhagddo ar y tri syniad arall[20].

**Y Dreth ar Dir Gwag a'r broses rynglywodraethol ar gyfer trethi newydd**

34. Ym mis Mawrth 2020, yn dilyn cytundeb gan Gydbwyllgor y Trysorlysoedd bod cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer 'treth ar dir gwag' wedi'u datblygu'n ddigonol i symud ymlaen i gam nesaf y broses, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gais ffurfiol i Lywodraeth y DU am ddatganoli'r cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn. Roedd y cais ffurfiol yn unol â'r broses y cytunwyd arni rhwng Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU ar gyfer datganoli pwerau trethu newydd i Gymru, fel y darparwyd gan Ddeddf Cymru 2014. Ar 19 Awst 2020, ymatebodd Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys gan ddweud y byddai angen rhagor o fanylion eto cyn y gellid bwrw ymlaen â'r cais ffurfiol.

35. Mae profiad Llywodraeth Cymru o symud drwy'r broses wedi bod yn hir ac yn heriol, gyda Thrysorlys EM yn gofyn yn barhaus am fanylion mewn perthynas â'r ffordd benodol y caiff y dreth arfaethedig ei gweithredu – sy'n fater i Gymru – yn hytrach na gwybodaeth am ddatganoli cymhwysedd ar gyfer deddfwriaeth mewn maes trethiant newydd. Mae wedi dod i'r amlwg bod diffygion difrifol yn y broses y cytunwyd arni ar gyfer datganoli cymhwysedd trethu. Fel y mae'r broses ar hyn o bryd, mae'n anodd dychmygu sefyllfa lle y gallai Llywodraeth Cymru lwyddo i gyflwyno'r achos dros gymhwysedd trethu pellach.Mae angen adolygu a diwygio'r broses ar fyrder.

---

[19] Papur Gorchymyn Bil Cymru *Atebolrwydd a grymuso ariannol*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294471/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf

[20] Darperir rhagor o fanylion am y dreth ar dir gwag a syniadau newydd eraill o ran trethi yn *Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2018,* Llywodraeth Cymru (Hydref 2018), tudalen 18:
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2018.pdf
ac *Adroddiad ar Bolisi Trethu Cymru 2019* (Rhagfyr 2019), tudalennau 23 a 48:
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2019.pdf

**Talu am ofal cymdeithasol**

36. Caiff ystyriaethau'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol, a gadeirir gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, eu llywio gan yr ymrwymiad i wasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gwaith ataliol a sefydlwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, *Cymru Iachach*[21]*;* a'r weledigaeth ar gyfer gwasanaeth di-dor i ddinasyddion.

37. Hefyd, mae strategaeth Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu ar yr economi (2017)[22] yn nodi bod gofal cymdeithasol yn un o'r sectorau sylfaen sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau hanfodol ac sy'n chwarae rhan bwysig ym mywydau pobl a chymunedau.

38. Yr angen i ddod o hyd i ffordd o gynyddu'r cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol ledled y DU gyfan yw un o ystyriaethau allweddol y Grŵp Rhyngweinidogol o hyd. Yn absenoldeb diwygio sylweddol ar lefel y DU, mae'r Grŵp wedi gwneud cryn dipyn o waith i ystyried opsiynau ar gyfer gwelliant hirdymor, gan gynnwys archwilio modelau gofal newydd, gwrthbwyso elfennau codi tâl, a gwelliannau i ansawdd gwasanaethau drwy fuddsoddiadau yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Byddai angen mwy o fuddsoddiad blynyddol yn y meysydd hyn, ac mae'r Grŵp wedi ystyried y defnydd posibl o drethi yn y tymor hwy er mwyn helpu llywodraeth yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau.

**Treth ar ddeunydd plastig untro**

39. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU wrth ystyried yr opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â deunydd plastig a gwastraff diangen, gan gydnabod y manteision sydd ynghlwm wrth fabwysiadu dull cyson o weithredu ledled y DU. Mae hyn wedi cynnwys cefnogi ymgyngoriadau ar dreth ar ddeunydd pecynnu plastig yn y DU, ymestyn cyfrifoldeb cynhyrchwyr o ran deunydd pecynnu a chynllun dychwelyd ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd.

40. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n cynnal ymgynghoriad pellach ar y gwaith manwl o lunio'r dreth ar ddeunydd pecynnu plastig fel rhan o Gyllideb y DU ym mis Mawrth 2020. Ym mis Awst 2020, arweiniodd Llywodraeth Cymru, WRAP Cymru, Trysorlys EM a CThEM ddigwyddiadau ymgysylltu gyda'r nod o annog rhanddeiliaid yng Nghymru i leisio eu barn. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar lunio polisi ym mis Tachwedd[23], ynghyd â'r ddeddfwriaeth sylfaenol ddrafft ar gyfer ymgynghoriad technegol[24], sy'n nodi nodweddion allweddol y dreth.

41. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu sylfaen dystiolaeth er mwyn asesu rhinweddau cyflwyno treth neu dâl penodol i Gymru ar gwpanau plastig untro. Mae

---

[21] *Cymru Iachach*: *cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol:*
https://llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol
[22] *Ffyniant i Bawb*: *cynllun gweithredu ar yr economi:*
https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi
[23] Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar lunio polisi treth ar ddeunydd pecynnu plastig (Saesneg yn unig):
https://www.gov.uk/government/consultations/plastic-packaging-tax-policy-design
[24] Deddfwriaeth ddrafft ar gyfer treth ar ddeunydd pecynnu plastig (Saesneg yn unig):
https://www.gov.uk/government/publications/introduction-of-a-new-plastic-packaging-tax

Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar waith ymchwil ehangach i feithrin dealltwriaeth well o'r farchnad cwpanau untro a'r defnydd ohonynt.

**Treth ar dwristiaeth**

42. Ni chaiff treth ar dwristiaeth ei chyflwyno yng Nghymru yn ystod tymor presennol y Senedd. Bydd opsiynau'n parhau i gael eu hystyried gyda'r bwriad o alluogi Llywodraeth nesaf Cymru i fwrw ymlaen â hyn, petai'n dymuno.

**Benthyca**

Gwnaeth adrannau 20 a 21 o Ddeddf Cymru 2014 ddiddymu'r pŵer benthyca o dan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975, ac estyn pŵer benthyca Gweinidogion Cymru o dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a hynny o 1 Ionawr 2017. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca hyd at £500 miliwn i reoli llif arian (er mwyn lliniaru amrywiadau mewn derbynebau treth a mynd i'r afael â diffyg cyfatebiaeth dros dro rhwng treth a gwariant) ac, yn amodol ar gymeradwyaeth Trysorlys EM, hyd at £500 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf.

*Benthyca Cyfalaf*

- O fewn y terfyn o £500 miliwn ar gyfer benthyca cyfalaf, gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £125 miliwn y flwyddyn;
- Dim ond o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol (drwy Lywodraeth y DU) neu gan fanciau masnachol y gellir benthyca cyfalaf;
- Hyd nes y bydd y pwerau benthyca cyfalaf newydd yn dod i rym (a gynllunnir ar gyfer mis Ebrill 2018), gall Llywodraeth Cymru fenthyca o dan Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 er mwyn ariannu gwelliannau i'r M4 yn Ne-ddwyrain Cymru;
- Bydd Llywodraeth y DU yn adolygu terfyn uchaf Llywodraeth Cymru ar gyfer benthyca cyfalaf yn ystod pob Adolygiad o Wariant, a hynny yn sgil amgylchiadau economaidd a chyllidol, yn ogystal â lefel y trethiant datganoledig.

*Benthyca Refeniw*

- O fewn y terfyn o £500 miliwn ar gyfer benthyca refeniw, gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £200 miliwn y flwyddyn;
- Bydd cronfa arian parod newydd yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i reoli ansefydlogrwydd drwy ddarparu ffordd o arbed 'refeniw dros ben', (er enghraifft derbynebau treth sy'n uwch na'r disgwyl). Yr alwad gyntaf o ran gwarged fydd ad-dalu unrhyw arian sydd wedi'i fenthyca ar y pryd, ac, ar ôl hynny, gallai unrhyw arian sy'n weddill gael ei dalu i gronfa arian parod neu ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyhoeddus ychwanegol ar fater datganoledig.

Ym mis Chwefror 2015, yn dilyn trafodaethau rhynglywodraethol a thrawsbleidiol, cytunodd Llywodraeth y DU i estyn pwerau benthyca Llywodraeth Cymru i gynnwys dyroddi bondiau[25].

Diwygiodd Deddf Cymru 2017 adran 122A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i godi terfyn benthyca cyfalaf Gweinidogion Cymru o £500m i £1b.

Mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru[26], cyflwynodd Llywodraeth y DU Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Amrywio Pŵer Benthyca) 2018, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2018. Mae'r Gorchymyn yn diwygio adran 121(1A) o Ddeddf Llywodraeth Cymru

[25] Papur Gorchymyn *Pwerau at bwrpas: tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru* (Cm 9020), 27 Chwefror 2015, pennod 4, tudalen 51: https://www.gov.uk/government/publications/powers-for-a-purpose-towards-a-lasting-devolution-settlement-for-wales.cy

[26] Datganiad y Cabinet ynghylch bondiau Llywodraeth Cymru (Hydref 2018): https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-bondiau-llywodraeth-cymru

2006 i ddarparu y gall Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn ogystal â benthyca symiau sydd eu hangen arnynt at ddibenion gwariant cyfalaf, hefyd ddyroddi bondiau (heblaw bondiau sy'n drosglwyddadwy drwy gyflenwi).

O dan y fframwaith cyllidol, y cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU arno ym mis Rhagfyr 2016, cynyddodd y terfyn benthyca cyfalaf blynyddol o £125 miliwn i £150 miliwn pan gyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru ym mis Ebrill 2019.

**Benthyca cyfalaf**

43. Defnyddiodd Llywodraeth Cymru ei phwerau newydd i fenthyca am y tro cyntaf yn 2018-19. Benthycwyd £65m oddi wrth y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol er mwyn cefnogi gwariant cyfalaf Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn honno. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi benthyca rhagor o arian. Bydd cynlluniau ar gyfer gwariant cyfalaf yn defnyddio hyd at £125m arall o fenthyciadau cyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Caiff cynlluniau gwariant cyfalaf ar gyfer 2021-22, gan gynnwys ar gyfer rhagor o fenthyca, eu cyflwyno fel rhan o Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi ar 21 Rhagfyr 2020.

44. Bydd ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i'r defnydd o fenthyca cynlluniedig yn ystod pob cyfnod cyllidebol, a bydd ond yn cael ei ddefnyddio pan fydd pob ffynhonnell gonfensiynol, ratach o gyllid cyfalaf sydd ar gael wedi cael ei disbyddu.

**Benthyca refeniw a Chronfa Wrth Gefn Cymru**

45. Oherwydd methodoleg y gwrthbwysiad i'r grant bloc y cytunwyd arni ar gyfer treth incwm fel rhan o'r fframwaith cyllidol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r terfyn benthyca refeniw o £500 miliwn a ddarperir gan Ddeddf Cymru 2014 fod yn ddigonol i gwmpasu amrywiadau yn y ffrwd refeniw sy'n deillio o bwerau trethu datganoledig.

46. Cyflwynwyd Cronfa Wrth Gefn Cymru ym mis Ebrill 2018, gan olygu bod modd i adnoddau heb eu disbyddu o dderbynebau treth a'r grant bloc gael eu storio ar gyfer y dyfodol. Mae Cronfa Wrth Gefn Cymru yn cael ei chapio ar £350 miliwn a, bob blwyddyn, mae'n bosibl tynnu £125 miliwn i lawr ar gyfer gwariant refeniw a £50 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf. Nid oes unrhyw derfynau blynyddol ar daliadau i'r gronfa wrth gefn.

47. O 1 Ebrill 2020, roedd £335.9 miliwn ar gael yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru i gefnogi gwariant gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

## Addasiad i'r grant bloc a rhagolygon

### Addasiad i'r grant bloc

48. Cytunwyd ar y methodolegau ar gyfer addasu grant bloc Cymru yn dilyn datganoli pwerau trethu fel rhan o Fframwaith Cyllidol Llywodraeth Cymru[27]. Yn wreiddiol, roedd yr addasiadau ar gyfer 2019-20 mewn perthynas â'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn seiliedig ar y rhagolygon yn *Economic and Fiscal Outlook* (Hydref 2018) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol[28]. Fe'u diweddarwyd gan ddefnyddio rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020. Mae'r addasiadau ar gyfer 2020-21 yn seiliedig ar yr un rhagolygon o fis Mawrth 2020 ond cânt eu diweddaru gan ddefnyddio *Economic and Fiscal Outlook* y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd.

49 Roedd yr addasiad a wnaed pan gyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn hafal i'r refeniw yn 2019-20, a oedd yn flwyddyn drosiannol. Ar gyfer 2020-21, mae'r addasiad yn seiliedig ar ragolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth 2020. Caiff y data alldro cyntaf ar Gyfraddau Cymru ar gyfer 2019-20 eu cyhoeddi gan CThEM yn ystod haf 2021.

### Rhagolygon

50. Yn unol â'r Cytundeb Fframwaith Cyllidol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i drefniant gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i ddarparu rhagolygon annibynnol mewn perthynas â refeniw trethi Cymru ar gyfer Cyllideb 2020-21 a thu hwnt. Dechreuodd y trefniant gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Ebrill 2019 ac mae dogfennau ategol wedi'u cyhoeddi ar wefan y Swyddfa[29].

51. Lluniodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ddau adroddiad i gefnogi proses cyllideb 2020-21. Cyhoeddwyd adroddiad llawn *Rhagolwg Trethi Cymru* ar yr un pryd â'r Gyllideb ddrafft ym mis Rhagfyr 2019, a chyhoeddwyd diweddariad ochr yn ochr â'r Gyllideb derfynol ym mis Chwefror. Roedd y rhain yn cynnwys rhagolygon ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a Chyfraddau Treth Incwm Cymru, gan ddefnyddio rhagolwg macro-economaidd diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a data penodol sy'n berthnasol i Gymru. Caiff y *Rhagolwg Trethi Cymru* nesaf ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21, ym mis Rhagfyr 2020.

52. Fel rhan o'r trefniadau newydd, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi dod yn fwy amlwg yng Nghymru drwy ymgysylltu'n fwy helaeth â sefydliadau ac unigolion â buddiant. Mae hyn wedi cynnwys ymddangosiadau rheolaidd ym Mhwyllgor Cyllid y Senedd a chyfarfodydd gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd. Cynrychiolydd o Bwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a roddodd y cyflwyniad agoriadol yng nghynhadledd drethi rithwir Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2020.

---

[27] *Y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru*, Rhagfyr 2016: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/cytundeb-ar-fframwaith-cyllidol-llywodraeth-cymru.pdf

[28] Rhagolwg Cyllidol ac Economaidd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Hydref 2018 (Saesneg yn unig): https://cdn.obr.uk/EFO_October-2018.pdf

[29] Rhagolwg trethi Cymru y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol: https://obr.uk/rhagolwg-trethi-cymreig-rhagfyr-2019/

53. Am ddwy flynedd gyntaf datganoli trethi, lluniodd Llywodraeth Cymru ei rhagolygon refeniw trethi ei hun, wedi'u haswirio'n annibynnol gan Ysgol Fusnes Bangor. Cyhoeddwyd gwerthusiad o ragolygon 2018-19 fel atodiad i Adroddiad ar Bolisi Trethi 2019, ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2019. Caiff gwerthusiad o ragolygon 2019-20 ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r adroddiad nesaf ar bolisi trethi, ar ddechrau 2021.

**Atodiad 1: Rheoliadau**

Offerynnau statudol a luniwyd rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Rhagfyr 2020.

Lluniwyd o dan bwerau Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020

Lluniwyd o dan bwerau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020

## Atodiad 2: Ymgysylltu

### Grŵp Ymgysylltu ar Drethi

Ar ôl i Gyfraddau Treth Incwm Cymru, y Dreth Trafodiadau Tir, a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi gael eu cyflwyno'n llwyddiannus, ac ar ôl i Awdurdod Cyllid Cymru gael ei sefydlu, roedd gwaith Grŵp Cynghorol Trethi Cymru wedi'i gwblhau, a chafodd y grŵp ei ddiddymu ym mis Chwefror 2020.

Er mwyn parhau i gynnig fforwm i sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau, llywodraeth leol a'r trydydd sector drafod datblygiadau ym maes polisi trethi, mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi sefydlu Grŵp Ymgysylltu ar Drethi, ac mae'n ei gadeirio hefyd.

Mae'r Grŵp Ymgysylltu ar Drethi yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

- Sefydliad Bevan
- CBI Cymru
- Sefydliad Siartredig Trethiant
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
- Sefydliad y Cyfarwyddwyr
- Cymdeithas y Cyfreithwyr
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Mae cylch gwaith y grŵp, a gyfarfu am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2020, fel a ganlyn:

i) Rhoi sylwadau ar sut y mae datblygiadau presennol a newydd ym maes polisi trethi yn effeithio ar gymunedau a busnesau yng Nghymru;

ii) Ystyried cynnwys cynllun gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer polisi trethi;

iii) Cymryd camau ymarferol i gefnogi gweithgarwch ymgysylltu sydd â’r nod o wella lefelau o ymwybyddiaeth, gwybodaeth, a dealltwriaeth mewn perthynas â threthi Cymru, a pholisi a gweinyddiaeth trethi, ymysg pobl a busnesau yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y Grŵp Ymgysylltu ar Drethi ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru[30].

### Cynhadledd trethi

Ym mis Hydref 2020, cynhaliodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd drydedd Gynhadledd flynyddol Llywodraeth Cymru ar Drethi Cymru. Cynhaliwyd y digwyddiad ar-lein eleni, oherwydd y cyfyngiadau ar gyfarfodydd cyhoeddus yn ystod pandemig COVID-19. Roedd mwy na 100 o bobl yn bresennol o blith ystod o randdeiliaid o fyd busnes, y sector cyhoeddus, academia a'r trydydd sector. Roedd y cyflwyniadau'n trafod: y senarios economaidd a chyllidol yn ystod pandemig COVID-19, rheoli risg trethi, ymchwil i agweddau'r cyhoedd tuag at dreth, profiad Awdurdod Cyllid Cymru o weithredu gwasanaeth refeniw yn y cwmwl, a sesiwn holi ac ateb.

---

[30] Grŵp Ymgysylltu ar Drethi:
https://llyw.cymru/grwp-ymgysylltu-ar-drethi

**Gweithgarwch ymgysylltu Awdurdod Cyllid Cymru**

Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) wedi datblygu '*Ein Dull o Weithredu*' er mwyn esbonio sut yr hoffai gydweithio â'i holl randdeiliaid – gan gynnwys trethdalwyr, eu cynrychiolwyr, cyrff proffesiynol a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol, cydweithwyr yn y llywodraeth a sefydliadau partner – er mwyn sicrhau y caiff trethi eu casglu a'u rheoli mewn ffordd sy'n gefnogol ac yn deg, ac yn sicrhau'r gwerth gorau am arian i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae gweithredu mewn ffordd a arweinir gan bartneriaeth yn hanfodol i'r ffordd y mae ACC yn casglu ac yn rheoli'r trethi datganoledig yng Nghymru.

Fel rhan o '*Ein Dull o Weithredu'*, mae ACC yn ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu parhaus, dwyffordd â rhanddeiliaid. Mae'r gweithgarwch hwn yn cynnwys cynnal fforymau trethi ledled Cymru er mwyn cynnig cymorth, gwrando ar adborth a phrofi syniadau ynghylch newidiadau posibl i wasanaethau. Mae'r sesiynau, a gynhelir ar ffurf gweithdai, yn cynnig help a chyngor ymarferol, er enghraifft, i gyfreithwyr a thrawsgludwyr sy'n llenwi ffurflenni treth sy'n ymwneud â thrafodiadau tir. Mae ACC yn cynnal digwyddiadau gyda changhennau lleol Cymdeithas y Cyfreithwyr ac yn cynnal ei weminarau ei hun – mae'r gweminarau wedi bod yn ffordd lwyddiannus iawn o gyrraedd nifer mawr o bobl yn ystod pandemig COVID-19. Er mwyn cefnogi gweithredwyr safleoedd tirlenwi, mae tîm gweithrediadau ACC yn rhoi cymorth uniongyrchol i'w helpu i ffeilio a thalu treth gwarediadau tirlenwi.

Mae ACC hefyd yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol ar ei dudalennau gwe (llyw.cymru/acc) drwy lwyfan LLYW.CYMRU Llywodraeth Cymru. Mae'r llwyfan hwn yn cynnal system dreth ddigidol ACC yn ogystal â gwybodaeth, gan gynnwys canllawiau technegol ac adroddiadau corfforaethol. Mae ACC yn defnyddio dulliau cyfathrebu eraill i ymgysylltu â'i gynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys ffrydiau Twitter (@ACCtrydar ac @WRAtweet), proffil LinkedIn dwyieithog, ac e-gylchlythyr sy'n rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch corfforaethol.

Mae adborth wrth wraidd y gwaith a wna ACC – er enghraifft, mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn llywio newidiadau i wasanaethau. Defnyddir arolygon yn bennaf i gasglu adborth ar draws nifer o sianeli, gan gynnwys tudalennau gwe, system dreth ar-lein, ffurflenni ar-lein a thrwy dîm y ddesg gymorth.

**Ffyrdd eraill o gadw mewn cysylltiad**

Mae Trysorlys Cymru yn gweithio gyda sefydliadau yng Nghymru i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth i ni ddatblygu polisi trethi a rhaeadru cynnwys i aelodau a rhwydweithiau. Os hoffech gael cyfraniad gan Drysorlys Cymru ar unrhyw agwedd ar ddatganoli cyllidol, anfonwch e-bost i: TrysorlysCymru@llyw.cymru

Caiff datganoli trethi yng Nghymru ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol drwy gyfrifon Twitter Trysorlys Cymru @TrysorlysCymru ac @WelshTreasury, a thrwy'r hashnodau #TrethiCymru #WelshTaxes.

Mae tudalennau Trysorlys Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru yn cynnig rhagor o wybodaeth am ddatganoli trethi yng Nghymru, gan gynnwys cyhoeddiadau i'w darllen neu eu lawrlwytho – cyhoeddiadau ffurfiol a ffeithlenni a thaflenni: llyw.cymru/trethi-cymru

Defnyddir amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu, gan gynnwys ffeithluniau, cardiau Twitter a Doopoll i gyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gellir dod o hyd i fideo sy'n darparu gwybodaeth am drethi a gwariant yng Nghymru ar sianel YouTube Llywodraeth Cymru[31].

[31] https://www.youtube.com/watch?v=lzRjhLyZRko

## Atodiad 3: Rhagor o wybodaeth

Ceir rhagor o wybodaeth am ddatganoli trethi i Gymru ar y rhyngrwyd.

### Cefndir

*Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru (Comisiwn Holtham)*

Sefydlwyd y Comisiwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn ystyried y dull ariannu yng Nghymru a'r modd y gellid ei wella, gan gynnwys yr achos dros ddatganoli pwerau trethu a benthyca. Cyhoeddodd y Comisiwn ddau adroddiad gydag argymhellion (2009 a 2010). Mae'r rhain, ynghyd â deunydd arall a gyhoeddwyd gan y Comisiwn, i'w cael yn:
https://llyw.cymru/trethi-cymru#AdroddiadauComisiwnHoltham

*Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk)*

Gofynnwyd i Gomisiwn Llywodraeth y DU ystyried trefniadau ariannol a chyfansoddiadol Cymru. Rhoddodd ei adroddiad cyntaf (2012) sylw i'r achos dros ddatganoli pwerau trethu a benthyca, yn ogystal â newidiadau sefydliadol cysylltiedig:
https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140605075134/http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/cy/

### Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru

*Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016*

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi fframwaith cyfreithiol ar waith ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, gan gynnwys sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC):
https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/contents/enacted

Ymgynghoriad sydd wedi dod i ben, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion, a gynhaliwyd cyn mynd ati i ddatblygu deddfwriaeth trethi:
https://llyw.cymru/casglu-rheoli-trethi-datganoledig-yng-nghymru

*Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017*

Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer cyflwyno Treth Trafodiadau Tir o fis Ebrill 2018, ac yn cynnwys mesurau i fynd i'r afael ag achosion o osgoi trethi datganoledig:
https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/1/contents

Ymgynghoriad sydd wedi dod i ben, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion, a gynhaliwyd cyn mynd ati i ddatblygu deddfwriaeth trethi:
https://llyw.cymru/datganoli-trethi-yng-nghymru-treth-trafodiadau-tir

*Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017*

Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer cyflwyno Treth Gwarediadau Tirlenwi o fis Ebrill 2018:
https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/3/contents/enacted

Ymgynghoriad sydd wedi dod i ben, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion, a gynhaliwyd cyn mynd ati i ddatblygu deddfwriaeth trethi:
https://llyw.cymru/datblygu-treth-gwarediadau-tirlenwi

*Galluogi newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru*

Ymgynghoriad ar sut i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 15 Hydref 2020, a disgwylir i'r canlyniad gael ei gyhoeddi cyn diwedd mis Rhagfyr 2020.
https://llyw.cymru/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru

*Fframwaith polisi trethi, cynlluniau gwaith ac adroddiadau Llywodraeth Cymru*

Disgrifir dull polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â threthi yng Nghymru yn y *Fframwaith Polisi Trethi*, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017. Mae'r cynlluniau gwaith blynyddol ar gyfer 2017, 2018 a 2019, ynghyd ag adroddiadau mis Hydref 2017 a mis Hydref 2018, yn disgrifio'r gwaith dadansoddi, y canfyddiadau a'r casgliadau sy'n dod i'r amlwg:
https://llyw.cymru/trethi-cymru#Fframwaithpolisitrethi

**Llywodraeth a Senedd y DU**

*Deddf Cymru 2014*

Deddfwriaeth y DU yn paratoi'r ffordd ar gyfer datganoli pwerau trethu a benthyca:
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents/enacted

*Papur Gorchymyn 'Atebolrwydd a grymuso ariannol'*

Cafodd rhai agweddau ar y trefniadau ar gyfer datganoli pwerau trethu a benthyca (er enghraifft y dyddiadau targed, mynediad cynnar at fenthyca a'r broses o greu trethi datganoledig newydd) eu hegluro ym Mhapur Gorchymyn Llywodraeth y DU, Bil Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294471/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf

*Papur Gorchymyn, 'Pwerau at bwrpas: tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru'*

Roedd y papur hwn, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015, yn ymrwymo Llywodraeth y DU i gyflwyno lefel waelodol o gyllid o ran y cyllid cymharol y mae'n ei roi i Lywodraeth Cymru; i ystyried yr achos dros ddatganoli rhagor o bwerau i'r Senedd mewn perthynas â'r dreth teithwyr awyr, ynghyd â'r opsiynau ar gyfer gwneud hynny; ac i alluogi Llywodraeth Cymru i ddyroddi bondiau:
https://www.gov.uk/government/publications/powers-for-a-purpose-towards-a-lasting-devolution-settlement-for-wales.cy

*Y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru*

Mae'r fframwaith hwn, a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2016, yn disgrifio'r trefniadau cyllido i gefnogi'r broses o weithredu'r darpariaethau cyllidol yn Neddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017:
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/cytundeb-ar-fframwaith-cyllidol-llywodraeth-cymru.pdf

*Deddf Cymru 2017*

Cafodd Deddf Cymru 2017, a oedd yn dileu'r gofyniad am refferendwm ar Gyfraddau Treth Incwm Cymru, ac yn cynyddu'r terfyn benthyca cyfalaf ar gyfer Llywodraeth Cymru, Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017:
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/4/contents/enacted

**Atodiad 4: Talfyriadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn**

| | |
|---|---|
| ACC | Awdurdod Cyllid Cymru |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| CThEM | Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi |
| GOWA 2006 | Deddf Llywodraeth Cymru 2006 |
| TGT | Treth Gwarediadau Tirlenwi |
| TTT | Treth Trafodiadau Tir |
| TWE | Talu Wrth Ennill |